Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Nodiadau'r digwyddiad i randdeiliaid

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 20 Mawrth 2023
Equality and Social Justice Committee | 20 March 2023

**Cyfeirnod:**RS23/5572-1

**Cyflwyniad**

Ar 20 Mawrth, cyfarfu'r Pwyllgor â rhanddeiliaid i gasglu safbwyntiau a syniadau ar gyfer ymchwiliad posibl i hiliaeth a'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cafodd y cyfranogwyr y dewis o fod yn bresennol ar-lein neu wyneb yn wyneb a chynhaliwyd y sesiynau ochr wrth ochr.

Mae'r papur hwn yn rhoi nodyn o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg.

Roedd 25 o randdeiliaid yn bresennol yn y digwyddiad. Ceir manylion y rhanddeiliaid oedd yn bresennol yn Adran 4.

# 1. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mynegodd rhanddeiliaid eu cefnogaeth eang i’r Cynllun a’i uchelgais cyffredinol o gyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Gyda saith mlynedd i gyflawni'r uchelgais hwn, bu llawer yn trafod yr hyn y maent yn teimlo sydd ei angen i sicrhau bod y camau gweithredu yn y Cynllun yn cael eu cyflawni.

### 1.1.1. Mae arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog o ran sicrhau bod y camau gweithredu’n cael eu cyflawni. Roeddent yn dadlau bod angen i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl, dangos ei bod wedi ymrwymo i fabwysiadu dull rhagweithiol at hiliaeth a sicrhau bod ganddi systemau ar waith sy’n cefnogi dull gweithredu gwrth-hiliol. Mae angen iddi allu dangos ei bod yn darparu hyfforddiant ar hil a hiliaeth, ei bod yn cyflogi staff o gefndiroedd amrywiol a'i bod yn buddsoddi adnoddau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol.

Roeddent yn dweud bod yn rhaid i'r Llywodraeth, yn ogystal ag arwain ar gyflawni'r cynllun, hefyd sicrhau bod sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, iechyd ac addysg yn gwybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud.

Roedd pryderon hefyd bod arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei thanseilio gan y rhethreg gan rai yn Llywodraeth y DU, yn enwedig o ran materion lloches a mewnfudo. Fe wnaeth sawl un o’r cyfranogwyr bwysleisio’r angen i gymedroli’r rhethreg wrth drafod y materion hyn.

### 1.1.2. Mae angen gweithredu trawslywodraethol

O ystyried ehangder y Cynllun a natur groestoriadol hiliaeth, mae cyflawni'r camau gweithredu'n dibynnu'n helaeth ar ddull gweithredu trawslywodraethol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i roi popeth at ei gilydd - er enghraifft bydd materion tai yn effeithio ar iechyd meddwl. Roeddent yn dadlau y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion rannu’r hyn y maent wedi’i wneud i roi’r camau gweithredu o dan eu portffolio ar waith i fynd i’r afael â’r camau gweithredu yn y Cynllun.

### 1.1.3. Dylid cynnwys sefydliadau llawr gwlad yn y gwaith o gyflawni'r cynllun

Dywedwyd ei bod yn hollbwysig cynnwys sefydliadau llawr gwlad i gyflawni’r Cynllun Gweithredu, ond roedd rhanddeiliaid yn dadlau bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu dull ‘o’r brig i’r bôn’ i gyflawni’r cynllun, heb gynnwys sefydliadau llawr gwlad yn ddigonol. Roedd pryder bod Llywodraeth Cymru yn tueddu i

ffafrio gweithio gydag un neu ddau o sefydliadau arweiniol nad ydynt o reidrwydd yn cynrychioli pob llais, a bod tueddiad hefyd i'r Llywodraeth roi pawb mewn 'un blwch'. Dadleuwyd bod angen sicrhau bod adnoddau'n cael eu lledaenu ar draws grwpiau cymunedol, yn hytrach na'u crynhoi mewn ychydig o sefydliadau mwy o faint.

Roedd pryderon bod y Cynllun ei hun wedi annog y dull gweithredu hwn drwy ystyried lleiafrif ethnig fel grŵp homogenaidd, heb gydnabod bod pobl a lleiafrifoedd ethnig yn wahanol iawn.

### 1.1.4. Cyfathrebu am effaith

Dywedodd rhanddeiliaid fod cynnwys y gymuned a hyder yn y gwaith o gyflawni'r Cynllun yn hollbwysig. Eglurwyd y bu dibyniaeth ar barodrwydd pobl i rannu profiadau byw a chymryd rhan mewn archwiliadau dwfn a bod ymdeimlad bod pobl yn teimlo wedi'u blino gan ymgynghoriadau. Yn hytrach na pharhau i rannu eu profiadau byw, mae pobl eisiau gweld sut mae pethau'n newid a pha effaith yr oedd hyn yn ei chael ar lawr gwlad. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod diffyg sianeli cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau. Soniodd rhanddeiliaid o dde Cymru hefyd am bwysigrwydd cyrraedd cymunedau yng nghanolbarth a gogledd Cymru.

### 1.1.5. Monitro ac atebolrwydd

Er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni, dadleuodd rhanddeiliaid fod angen bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau hynny, sut y cânt eu monitro a beth yw'r canlyniadau pan na chaiff y camau hynny eu rhoi ar waith. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i nodi mai dim ond ffordd arall o dicio blychau fyddai Cynllun Gweithredu heb fawr o atebolrwydd. Awgrymodd un rhanddeiliad y dylid creu fforymau gorfodi polisi â therfyn amser, y gellid eu cynnal ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

### 1.1.6. Data

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod casglu data yn allweddol i ddeall lle mae problemau, ond nodwyd bod anghysondebau o ran casglu data ar draws meysydd polisi, ac nad yw'r data sy'n cael eu casglu yn cael eu dadansoddi.

### 1.1.7. Croestoriadedd

Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd croestoriadedd, gyda rhai'n nodi y dylai fod yn annatod neu na fydd polisïau yn effeithiol ac y bydd problemau'n gwaethygu.

*Pobl hŷn*

Dadleuodd rhai rhanddeiliaid y gall y ffordd y mae pobl hŷn yn profi hiliaeth fod yn wahanol iawn a theimlwyd nad oedd y cynllun yn rhoi sylw digonol i hyn.

*Plant a phobl ifanc*

Roedd rhanddeiliaid eraill yn dadlau bod y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn profi hiliaeth yn unigryw. Teimlwyd y byddai'n werth ymgynghori â chyrff cyhoeddus sy'n astudio effaith hiliaeth ar blant ysgol a gofyn iddynt gyfrannu at unrhyw ymchwiliad y mae'r Pwyllgor yn ei gynnal. Teimlai rhanddeiliaid fod plant a oedd yn dioddef hiliaeth yn yr ysgol yn dioddef Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac y dylid cydnabod hyn yn ffurfiol. Teimlai un rhanddeiliad fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i blant sy'n profi hiliaeth y tu allan i'r ysgol, gan y teimlwyd bod ysgolion yn mabwysiadu'r farn, pe bai digwyddiadau hiliol yn digwydd y tu allan i gatiau'r ysgol, nad oedd llawer y gallai'r ysgol ei wneud i gynorthwyo.

Cododd rhanddeiliad arall y mater o blant yn gorfod bod yn gyfieithwyr i berthnasau hŷn yn y teulu mewn meddygfeydd a'r lletchwithdod y gallai hynny ei achosi i deuluoedd. Teimlwyd bod angen gwneud mwy i sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael mewn meddygfeydd ac ysbytai fel nad oes rhaid i blant orfod cyfieithu asesiadau meddygol sy'n aml yn eithaf personol ac weithiau'n frawychus.

*Pobl ag anableddau*

Teimlai rhanddeiliaid fod pobl o leiafrifoedd ethnig ag anableddau yn rhy aml yn profi hiliaeth mewn achosion bob dydd fel ceisio teithio ar fws neu mewn tacsi. Teimlwyd y byddai pobl wyn ag anableddau corfforol yn cael mwy o gymorth na phobl ddu ag anableddau corfforol. Teimlai rhanddeiliaid hefyd fod dynion du a oedd yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl hefyd yn profi ymddygiad hiliol gan yr Heddlu.

### 1.1.8. Gweledigaeth o sut mae 'da' yn edrych

Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod angen pennu gweledigaeth gliriach o sut byddai Cymru wrth-hiliol yn edrych er mwyn sicrhau bod pobl yn deall yr hyn y maent yn gweithio tuag ato.

## 1.2. Gweithredu'r Cynllun

Mynegodd rhanddeiliaid bryderon am y diffyg cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun, gydag un yn dadlau bod perygl iddo fod yn ddim mwy na dogfen arall. Tynnwyd sylw at y materion a ganlyn:

- Adnoddau o fewn y Tîm Gweithredu: amlygwyd bod Pennaeth Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi bod yn y swydd ers blwyddyn, ond nad yw'n glir a oes tîm wedi'i recriwtio;
- Camau i wella canlyniadau ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr: mae rhai o'r camau gweithredu eisoes yn hwyr ac nid oes tystiolaeth bod adnoddau nac amserlenni clir ar waith. Mae hyn yn achosi rhwystredigaeth gan fod teuluoedd a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn gofyn i randdeiliaid am ddiweddariadau;
- Cydgysylltu: Mae naw swyddog cydlyniant ledled Cymru a fydd yn gyfrifol am gyflawni a chydgysylltu camau gweithredu, ond nid oes strategaeth ar waith ac nid yw'r cynllun cydlyniant wedi'i ddiweddaru;
- Adnoddau: mae pryderon nad yw'r adnoddau angenrheidiol ar waith a bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu polisi mewn ffordd sydd heb yr adnoddau i'w ategu;
- Hyfforddiant: Teimlai rhanddeiliaid fod angen i hyfforddiant gwrth-hiliaeth fod ar gael yn haws ac y dylai'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno polisi ddilyn yr hyfforddiant i wella’u dealltwriaeth. Pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i weithio gyda'r rhai sydd â phrofiad byw wrth ddatblygu'r hyfforddiant er mwyn sicrhau cywirdeb ac effeithiolrwydd. Roedd pryderon hefyd ynghylch sicrhau ansawdd hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn ehangach gan fod gan rai cyfranogwyr dystiolaeth anecdotaidd o hyfforddiant o ansawdd gwael a/neu ffeithiol anghywir.
- Trosiant uchel o ran staff: roedd pryderon ynghylch trosiant uchel o ran staff, yn enwedig yn is-adran cydraddoldebau Llywodraeth Cymru, a dadleuwyd y gallai hyn gael effaith ar gyflawni’r cynllun. Dadleuwyd nad yw’r cynllun wedi’i ‘ddiogelu ar gyfer y dyfodol’ ac y gallai’r trosiant uchel arwain at golli ‘cof sefydliadol’.
- Rôl Llywodraeth Cymru: Rhannodd rhanddeiliaid eu pryderon ynghylch a oedd unrhyw ymdrechion difrifol gan Lywodraeth Cymru i fabwysiadu dull rhagweithiol at hiliaeth. Mynegodd un cyfranogwr siom arbennig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi codi llais yn erbyn penderfyniad Neuadd Dewi Sant i drefnu perfformiad arall gan Jimmy Carr yn dilyn ei sylw am y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dadleuwyd, petaent yn canolbwyntio'n wirioneddol ar fod yn wrth-hiliol, y dylid fod wedi dilyn yr un agwedd â Chyngor Caergrawnt, a wrthododd drefnu perfformiad ganddo. Cyflwynwyd dadl debyg am

ymateb Llywodraeth Cymru i sylwadau difrïol gan Aelod yn y Senedd am gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dywedodd un rhanddeiliad mai ychydig iawn o newidiadau a welodd a rhannodd yr enghraifft o gael ei gwahodd i gyfarfod ar gyfiawnder troseddol i ganfod mai hi oedd yr unig berson o liw yn yr ystafell.

- Cyfathrebu: mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynllun ond nid oes tystiolaeth bod hyn yn digwydd;
- Atebolrwydd: roedd pryderon bod y Cynllun yn brin o fanylion ynghylch pwy sy'n atebol am sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cwblhau, ac roedd rhanddeiliaid yn cwestiynu a yw awdurdodau lleol yn gwybod beth sydd angen ei wneud a chan bwy. At hynny, mae'r diffyg craffu a her allanol yn golygu bod risgiau bod y Llywodraeth yn marcio'i gwaith cartref ei hun. Roedd pryderon gwirioneddol gan rai rhanddeiliaid nad yw llawer o awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o'r Cynllun a'u bod wedi methu â chymryd unrhyw gamau hyd yma i'w weithredu.
- Cynnydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil: Dywedodd un rhanddeiliad fod yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hili yn dal i siarad am fesuriadau ac yn dal i weithio ar sut y bydd yn mesur effaith.

# 2. Meysydd polisi sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu

## 2.1. Trosedd a chyfiawnder

Er bod diffiniadau o hiliaeth wedi'u cynnwys yn y cynllun, dadleuodd rhanddeiliaid y gall fod yn anodd i bobl ddeall yr hyn y mae'n olygu'n ymarferol. Dywedodd un rhanddeiliad fod y cynllun a'r rhai sy'n gyfrifol am ei gyflawni wedi arfer â defnyddio 'iaith bolisi' y gallai pobl sy'n dioddef yn sgil hiliaeth gael trafferth ei deall. Roedd rhanddeiliad arall yn dadlau y byddai'n ddefnyddiol i hiliaeth gael ei hesbonio mewn termau lleyg fel bod pobl yn deall beth mae'n ei olygu'n ymarferol.

Dadleuwyd bod pobl y mae hiliaeth wedi effeithio arnynt yn cael eu gadael i lawr o safbwynt y system gyfiawnder ac nad ydynt yn cael y canlyniadau yr oeddent yn eu disgwyl. Roeddent yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwthio i sicrhau bod pobl yn adrodd am hiliaeth, ond pan fyddant yn gwneud hynny, maent yn treulio dwy awr o'u hamser ac nid oes dim yn digwydd. I lawer, mae

hyn yn rhywbeth sy’n digwydd bob dydd gyda phobl yn profi ymosodiadau micro nad ydynt bob amser yn cael eu deall i fod yn hiliol.

Mae pryderon hefyd bod rhai grwpiau, yn enwedig ymfudwyr a ffoaduriaid, bellach yn wynebu mathau mwy uniongyrchol o hiliaeth amlwg.

Mynegodd un rhanddeiliad bryderon ynghylch anghymesuredd hiliol yn y system cyfiawnder troseddol. Dadleuwyd bod yr heddlu ‘ymhell ar y blaen’ o ran gweithredu ar hil ond bod ‘gofod cystadleuol prysur’ yn bodoli o amgylch cynlluniau gweithredu. Er enghraifft, yn ogystal â Chynllun Gweithredu Cyfiawnder Troseddol Llywodraeth Cymru, mae gan Heddlu De Cymru ei strategaeth ei hun “Dewch i Siarad am Hil”. Fodd bynnag, mae Cynllun Gweithredu Hil Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cael blaenoriaeth o flaen pob cynllun arall.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau nad oes gan lawer o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o’u hawliau. Ymhellach, roedd canfyddiad bod yr hawliau sylfaenol hyn dan ymosodiad yn dilyn sgandal Windrush, Brexit a safbwynt y llywodraeth bresennol ar gychod yn croesi Môr Udd.

## 2.2. Addysg

Codwyd cwestiynau ynghylch newidiadau i'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion, gan gynnwys addysgu gorfodol ar hanes pobl dduon. Nododd rhai cyfranogwyr fod diffyg gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd posibl ymhlith y proffesiwn addysgu yn faes sy’n peri pryder. Dadleuwyd y gellid gwella hyn drwy recriwtio mwy o bobl i addysgu o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Roedd hefyd angen edrych ar yr adnoddau a ddarperir i athrawon i helpu i gyflwyno cwricwlwm mwy amrywiol ac ansawdd yr adnoddau hynny.

Amlygwyd y bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau demograffig mewn ysgolion fel problem barhaus sy’n gofyn am ymateb polisi mwy cadarn. Tynnwyd sylw ato hefyd fel maes posibl ar gyfer ymchwiliad pellach gan bwyllgor.

Nododd un cyfranogwr fod hil ar goll o ysgolheictod mewn llawer o bynciau a meysydd ymchwil a dadleuodd fod rhwystrau niferus yn parhau yn y sector addysg uwch.

## 2.3. Tai

Nodwyd bod ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gweithredu yn gyffredinol isel yn y sector tai a bod gweithrediad yn amrywio o ganlyniad. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn arwain y ffordd ond roedd y

diffyg ymgysylltu â landlordiaid preifat yn cael ei weld fel rhwystr i gynnydd pellach.

## 2.4. Meysydd polisi nad ydynt yn y Cynllun Gweithredu

### 2.4.1. Iaith

Roedd rhai rhanddeiliaid yn dadlau bod gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau iaith yn bwysig, ond eto ychydig iawn y mae'r cynllun yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn ac nad yw'n mynd 'yn ddigon dwfn' yn yr un modd ag iechyd, tai ac iechyd meddwl; ac eto bydd rhwystrau iaith yn effeithio ar gyrchu cymorth yn y meysydd hynny.

Esboniodd un rhanddeiliad y gall rhai pobl o gefndiroedd Bangladeshaidd ei chael hi'n anodd cyfleu eu safbwynt a'u bod yn tueddu i gael eu tawelu a dod ar draws fel pobl parchus a swil. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

# 3. Sut y gallai ymchwiliad edrych

## 3.1. Ystyriaethau wrth gynnal ymchwiliad

Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol gefnogol o fwriad y Pwyllgor i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

O ystyried ehangder y Cynllun, roeddent yn teimlo'n gryf y byddai angen i ymchwiliad fabwysiadu dull trawslywodraethol o ran gwaith craffu a chynnwys mewnbwn o sesiynau gyda Gweinidogion â chyfrifoldeb y tu hwnt i gyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys gyda'r Gweinidogion iechyd, tai ac addysg. Dywedodd un rhanddeiliad ei bod yn siomedig bod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr, wedi rhoi tystiolaeth ond y dylai'r Pwyllgor hefyd fod wedi craffu ar waith y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Fe wnaeth aelodau'r gymuned chwarae rhan fawr yn y gwaith o lunio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a bydd ganddynt rôl hollbwysig o ran monitro'r modd y caiff ei gyflawni.  Nododd rhai rhanddeiliaid fod angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod rhai cynrychiolwyr sy'n rhoi tystiolaeth yn cael eu talu i wneud hynny gan eu sefydliadau, ac eto mae rhai sefydliadau llai o faint a grwpiau cymunedol yn rhoi o'u hamser am ddim ac y dylid cydnabod a mynd i'r afael â hyn.

Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder y gall eu lleisiau yn aml gael eu 'gwanhau' i wneud eu barn yn fwy dymunol i gynulleidfaoedd Gwyn. Er bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn hapus i ymgysylltu â gwleidyddion ar faterion hil, teimlwyd ei bod yn bwysig nad yw eu profiadau byw yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sydd wedi'i gwanhau.

### 3.2. Rôl y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Awgrymodd rhanddeiliaid rôl i'r Pwyllgor hwn o ran monitro hynt y Cynllun, o bosibl ar ffurf monitro blynyddol rheolaidd.

# 4. Yn bresennol

**Jenny Rathbone AS**

1. Laura Shobiye, Prifysgol Caerdydd
2. Simon Lu, Tai Pawb
3. Isata Kanneh, Sefydliad Bevan
4. Tamasree Mukhopadhyay, KIRAN Cymru

**Jane Dodds AS**

5. Lauren Cooper: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
6. Maria Mesa: Women Connect First
7. Martyn Jones: Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
8. Trudy Aspinwall: Teithio Ymlaen (Cyngor ac Eiriolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr)
9. Tamesree Mukhopadhyay: KIRAN Cymru

**Sioned Williams AS**

10. Shahien Taj, Women Connect First
11. Jasmine Jones, Sipsiwn a Theithwyr Cymru
12. Nicola Evans, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

13. Dr Hanin Abou Salem, Prifysgol Caerdydd

**Sesiwn ar-lein i randdeiliaid gyda Ken Skates, Altaf Hussain a Sarah Murphy**

14. Amarjite Singh, TUC Cymru
15. Yr Athro Robert Moore, Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
16. Kemba Hadaway-Morgan, UNSAIN
17. Ginger Wiegand, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
18. Sana Afreen, Displaced People In Action
19. Fadhili Maghiya, Sub Sahara Advisory Panel
20. Megan Thomas, Anabledd Cymru
21. Huw Anslow, Clymblaid Ffoaduriaid Cymru
22. Rocio Cifuentes, y Comisiynydd Plant
23. Joanne Maksymi, Cyngor Hil Cymru
24. Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru

# 5. Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Claire Thomas

Claire.Thomas@Senedd.Cymru